Ystyr "**Clirffordd**" yw'r Prif Gerbytffordd unrhyw ochrau neu ddarnau ffyrdd a bennir yn y Cynlluniau, lle gwaherddir aros yn ystod yr Oriau Cyfyngedig mor bell nad yw'r ymadrodd Clirffordd yn cynnwys unrhyw Gilfan neu Fan Parcio;

Ystyr "**Cyngor**" yw Cyngor Sir Powys ac mae'n cynnwys unrhyw gontactwyr gwasanaethau Parcio neu asiant awdurdodedig a benodir gan neu sy'n gweithredu ar ran y Cyngor at ddiben unrhyw swyddogaeth dan ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn;

Ystyr "**Tâl Dyddiol**" yw'r tâl a godir gan y Cyngor am Barcio mewn Man Parcio ar unrhyw ddiwrnod unigol ac am gyfnod amser penodol fel y nodir yn y rhestr ffioedd a bennir gan hysbysiadau ar y safle;

Ystyr "**Bathodyn Person Anabl**" yw bathodyn a gyhoeddir gan yr Awdurdod Lleol yn unol â darpariaethau Rheoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Esemtiadau ar gyfer Pobl Anabl) (Cymru) 2000 neu fel arall bathodyn sydd mewn grym o dan y rheoliadau hynny fel pe byddai'n Fathodyn Person Anabl;

Ystyr "**Tystysgrif Gollyngiad**" yw tystysgrif a gyhoeddir gan neu ar ran y Cyngor dan ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn sy'n caniatáu i gerbyd penodol barcio mewn amgylchiadau penodol mewn Man Parcio, pan fyddai Parcio'r cerbyd hwnnw fel arall yn cael ei gyfyngu neu ei wahardd;

Ystyr "**Gyrrwr**" mewn perthynas â cherbyd sy'n Aros neu a Barciwyd mewn ardal neu Fan Parcio cyfyngedig, yw'r unigolyn sy'n gyrru'r cerbyd ar y pryd roedd yn Aros neu wedi'i Barcio yn yr ardal neu fan Parcio Cyfyngedig neu lle gwaherddir Parcio;

Ystyr "**Deddfu**" yw unrhyw ddeddfu, boed yn gyhoeddus, yn gyffredinol neu leol, ac sy'n cynnwys unrhyw orchymyn, rheol is-ddeddf, rheoliad, cynllun neu offeryn arall sy'n dod i rym trwy ddeddfu;

Ystyr "**Amseroedd Digwyddiadau**" yw cyfnodau ar unrhyw ddiwrnod penodol pan gynhelir digwyddiadau arbennig lle mae angen gwahardd neu gyfyngiadau rheolaidd ond dros dro ar Aros a/neu Barcio. Adeg digwyddiadau, gosodir arwyddion priodol dan Reoliadau a Chyfarwyddiadau Cyffredinol Arwyddion Traffig 2016 i ddangos y cyfyngiadau sydd eu hangen;

Ystyr "**Nwyddau**" yw nwyddau o unrhyw fath boed yn fyw neu'n ddifywyd ac mae'n cynnwys pecynnau wedi'u postio o unrhyw fath;

Ystyr "**Cerbyd Hacni**" yw cerbyd a drwyddedir dan Adran 37 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847;

Ystyr "**Aelwyd**" yw tŷ neu fflat gyda'i gyfeiriad post ei hun. Yn achos eiddo a rennir, mae cadarnhau cyfeiriad unigol yn amodol ar gael caniatâd cynllunio priodol er mwyn rhannu'r eiddo, a thalu Treth y Cyngor ar wahân;

Ystyr "**Allwedd**" yw'r allwedd sy'n gysylltiedig â'r Cynlluniau, i'w darllen ar y cyd â'r Cynlluniau;

Ystyr "**Cilfan**" mewn perthynas â Phrif Gerbytffordd yw unrhyw ddarn o gefnffordd ar ochr y Prif Gerbytffordd ond nad yw'n rhan ohono ac a farciwyd yn unol â Rheoliadau a Chyfarwyddiadau Cyffredinol Arwyddion Traffig 2016 at ddiben parcio cerbydau, mor bell na fydd unrhyw unigolyn yn achosi neu'n caniatáu i unrhyw gerbyd parcio mewn unrhyw gilfan at ddiben gwerthu Nwyddau neu wasanaethau o'r cerbyd hwnnw;

Ystyr "**Cerbyd Nwyddau Ysgafn**" yw cerbyd sy'n pwysol llai na 1500 kg a adeiladwyd neu a addaswyd er mwyn cludo Nwyddau neu lwyth o unrhyw ddisgrifiad, lle nad yw'r uchder cyffredinol dros 2.3 metr ac nid yw'r hyd cyffredinol dros 5.25 metr ac nid yw'n tynnu trelar;

Ystyr "**Ardal Llwytho**" yw unrhyw ochrau neu ddarnau ffyrdd a bennir ar y Cynlluniau lle gwaherddir gweithgareddau ar wahân i llwytho;

Ystyr y "**Prif Gerbytffordd**" yw'r rhan honno o briffordd gyhoeddus a ddefnyddir yn bennaf ar gyfer traffig trwodd mor bell nad yw'r ymadrodd Prif Gerbytffordd yn cynnwys Cilfan o gwbl;

Mae gan "**Beic Modur**" yr un ystyr ag yn Adran 136 y Ddeddf Act;

Ystyr "**Dim Oriau Llwytho**" yw mewn perthynas ag unrhyw Ffordd Dim Llwytho yn ystod yr oriau pan gyfyngir ar llwytho a dadlwytho ar y Cynlluniau;

Ystyr "**Dim Ffordd Llwytho**" yw unrhyw ochrau neu ddarnau ffyrdd a bennir ar y Cynlluniau lle gwaherddir llwytho mor bell nad yw'r ymadrodd 'Dim Ffordd Llwytho' yn cynnwys unrhyw Fannau Parcio;

Ystyr "**Dim Oriau Aros**" yw mewn perthynas ag unrhyw Ffordd Dim Aros, yr oriau pan gyfyngir aros ar y Cynlluniau;

Ystyr "**Dim Ffordd Aros**" yw unrhyw ochrau neu ddarnau ffordd (gan gynnwys Clirffyrdd) a bennir ar y Cynlluniau lle gwaherddir aros mor bell nad yw'r ymadrodd "Ffordd Dim Aros" yn cynnwys unrhyw Fannau Parcio;

Ystyr "**Stryd Unffordd**" yw priffordd lle gwaherddir gyrru cerbydau ar wahân i un cyfeiriad;

Ystyr "**Perchennog**" mewn perthynas â cherbyd, yw'r unigolyn sy'n cadw ac yn defnyddio'r cerbyd dan sylw. Wrth benderfynu pwy oedd y Perchennog ar unrhyw adeg benodol, cymerir yn ganiataol taw'r Perchennog oedd yr unigolyn a enwir ar ddogfen cofrestru'r cerbyd sef cewyd cofrestredig y cerbyd neu'r unigolyn sy'n defnyddio'r cerbyd dan sylw wrth gyflawni ei waith ac sydd â hawl i ddefnyddio'r cerbyd dan sylw fel pe bai'n geidwad cofrestredig y cerbyd;

Mae "**Parcio**" ac "**Wedi'i barcio**" yn cyfeirio at stopio cerbyd, a'r ffaith fod y cerbyd wedi aros yn segur am amser boed y Gyrrwr dal yn y cerbyd ai peidio

a thybir fod y cerbyd wedi ei Barcio am unrhyw gyfnod yn yr un Man Parcio os bydd unrhyw ran ohono o dan y cerbyd neu lwyth y cerbyd (os yn berthnasol) os caiff y cerbyd ei symud ai peidio yn ystod y cyfnod hwnnw;

Mae "**Dyfais Parcio**" yn golygu'r ystyr a nodir yn Adrannau 35(3)(b) ac Adran 51(4) y Ddeddf;

Mae gan "**Disc Parcio**" yr un ystyr ag yn Rheoliadau Gorchymynion Traffig Awdurdodau Lleol (Eithriadau ar gyfer Pobl Anabl) (Cymru) 2000 sy'n gallu dangos y cyfnod fesul chwarter awr pan fydd y cyfnod Parcio wedi dechrau;

Ystyr "**Man Parcio**" yw'r ardal ar briffordd a bennir gan y Gorchymyn hwn ar gyfer Parcio cerbydau dosbarthiadau penodol;

Ystyr "**Cerbyd Teithwyr**" yw cerbyd (ar wahân i Feic Modur neu Gerbyd Pobl Anabl) a adeiladwyd neu a addaswyd yn benodol i gludo heb fod yn fwy na deuddeg teithiwr (heb y Gyrrwr) a'u heiddo personol, ac nad yw'n tynnu trelar;

Ystyr "**Peiriant Tocynnau Talu ac Arddangos**" yw offer o fath a gymeradwyir gan yr Ysgrifennydd Gwladol i gyhoeddi tocyn sy'n dangos y talwyd ffi, dyddiad diliys y tocyn, a'r amser erbyn pryd y mae gofyn i'r cerbyd adael y Man Parcio;

Ystyr "**Tocyn Talu ac Arddangos**" yw tocyn a gyhoeddir gan Beiriant Tocynnau Talu ac Arddangos sy'n berthnasol i'r Man Parcio lle Parciwyd cerbyd;

Mae gan "**Tâl Cosb**" yr un ystyr ag yn Adran 72 Deddf Rheoli Traffig 2004 neu unrhyw ddeddfwriaeth wedi hynny sy'n ei alluogi;

Ystyr "**Trwydded Parcio**" yw unrhyw drwydded a gyhoeddir gan y Cyngor dan ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn sydd, ar ei wyneb, â marc cofrestru'r cerbyd perthnasol, a'r dyddiad y daw i ben;

Ystyr "**Deiliad Trwydded**" yw unigolyn y cyhoeddwyd Trwydded Parcio iddo dan ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn;

Ystyr "**Oriau a Ganiateir**" yw'r cyfnodau a bennir ar gyfer pob Man Parcio pan ganiateir parcio cerbydau o ddosbarth penodol fel y nodir ar y Cynlluniau;

Ystyr "**Cynlluniau**" ar y cyd yw'r cynlluniau, diagramau, lluniau, neu unrhyw gynrychiolaeth raffigol arall sy'n dangos lleoliad yr holl briffyrrd sydd yn destun y Gorchymyn hwn, fel y cofnodir yn ddigidol o dro i dro, ac a gedwir gan y Cyngor a'r Allwedd gysylltiedig;

Ystyr "**Ffordd Waharddedig**" yw unrhyw ochrau neu ddarnau ffyrdd a bennir ar y Cynlluniau lle gwaherddir Aros, mor bell nad yw'r ymadrodd "Ffordd Waharddedig" yn cynnwys unrhyw Fannau Parcio;

Ystyr "**Safle perthnasol**" mewn perthynas â cherbyd sy'n arddangos Bathodyn Person Anabl dilys, Trwydded Parcio neu Dystysgrif Trwyddedu yw:

- (a) yn achos cerbyd sydd â dangosfwrdd neu banel deialu, dylid arddangos Bathodyn Person Anabl arno fel y gellir darllen Rhan 1 (blaen Bathodyn Person Anabl) neu'r Dystysgrif Trwyddedu neu'r Drwydded Parcio o du allan i'r cerbyd; neu
- (b) yn achos cerbyd heb ddangosfwrdd neu banel deialu, dylid arddangos Bathodyn Person Anabl arno fel y gellir darllen Rhan 1 (blaen Bathodyn Person Anabl) neu'r Dystysgrif Trwyddedu neu'r Drwydded Parcio mewn safle amlwg ar y cerbyd i allu darllen Rhan 1 (blaen Bathodyn Person Anabl) neu'r Dystysgrif Trwyddedu o du allan i'r cerbyd

Ystyr "**Preswylydd**" yw unigolyn sydd fel arfer yn byw mewn Cartref, y mae unrhyw ran ohono mewn unrhyw ffordd neu ddarn o ffordd sydd o fewn y Cynlluniau;

Ystyr "**Oriau cyfyngedig**" yw mewn perthynas ag unrhyw ffordd gyfyngedig yn ystod yr oriau pan gyfyngir ar Aros neu pan fydd cyfyngiadau ar weithgareddau penodol fel y nodir ar y Cynlluniau;

Ystyr “**Ffordd Gyfyngedig**”, yw unrhyw ochrau neu ddarnau ffordd a bennir ar y Cynlluniau lle mae cyfyngiadau ar Barcio neu Aros neu gyfyngiadau o ran gweithgareddau penodol yn ystor yr Oriau Cyfyngedig mor bell nad yw'r ymadrodd “Ffordd Gyfyngedig” yn cynnwys unrhyw Fannau Parcio;

Ystyr “**Mannau Parcio Penodol**” yw unrhyw Fan Parcio a bennir ar y Cynlluniau i'w ddefnyddio'n unig gan y math o Yrrwr a bennir gan yr hysbysiad yn neu'n agos at y Man Parcio hwnnw;

Ystyr “**Safle Tacsis**” yw darn o'r briffordd a bennir gan nodau ar y ffordd gyda 10282 Rheoliadau a Chyfarwyddiadau Cyffredinol Arwyddion Traffig 2016 i'w defnyddio gan Gerbydau Haci;

Mae “**Aros**” yn cyfeirio at stopio cerbyd a'r cerbyd yn aros yn ei unfan am amser boed y Gyrrwr yn y cerbyd ai peidio;

4. Tybir y bydd unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at Erthygl â rhif unigol, oni bai bod y cyd-destun yn gofyn fel arall, yn gyfeiriad at yr Erthygl gyda'r rhif dan sylw yn y Gorchymyn hwn a bod unrhyw gyfeiriad at y Cynlluniau yn gyfeiriad at y Cynlluniau sy'n rhan o'r Gorchymyn hwn.
5. Tybir fod unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at unrhyw Ddeddfiad yn gyfeiriad at y Deddfiad dan sylw, fel y'i diwygiwyd, wedi'i weithredu, wedi'i gydgrynhau, wedi'i ail-ddeddfu gan neu sy'n cael effaith trwy unrhyw Ddeddfiad dilynol.
6. Bydd Deddf Dehongli 1978 yn berthnasol i ddehongli'r Gorchymyn hwn; fel sy'n berthnasol i ddehongli Deddf Seneddol, ac fel pe bai at ddibenion Adran 21 y Ddeddf honno, byddai'r Gorchymyn hwn yn Ddeddf Seneddol a'r Gorchymynion a ddi-rymwyd gan y Gorchymyn hwn yn Ddeddfau Seneddol a ddiddymwyd trwy hynny.
7. Bydd y cyfyngiadau a osodir trwy'r Gorchymyn hwn yn ychwanegol i ac nid yn rhanddir ym unrhyw gyfyngiad neu ofynion a osodir gan unrhyw reoliadau a

wneir neu sy'n cael effaith dan y Ddeddf neu gan neu dan unrhyw Ddeddfiad arall.

8. Os bydd unrhyw lys, yr Adran Trafnidiaeth, Tribiwnlys Cosbau Traffig neu'r Canolfan Gorfodi Traffig yn datgan fod unrhyw ran o'r Gorchymyn hwn yn annilys neu'n anorfadadwy, ni fydd y fath datganiad yn annilysu gweddill y Gorchymyn.

ADRAN 2 – GWAHARDD A CHYFYNGU AR AROS A LLWYTHO

Gwahardd Aros

9. Ar wahân i ddarpariaethau Erthyglau 15 - 23, ni fydd unrhyw un oni bai iddo gael ei gyfarwyddo gan neu gyda chaniatâd heddwas yn ei wisg, yn achosi i neu'n caniatáu i unrhyw gerbyd Aros neu Barcio ar unrhyw adeg ar Ffordd Gyfyngedig fel y nodir yn y Cynlluniau.

Cyfngiadau Aros

10. Ar wahân i ddarpariaethau Erthyglau 15 - 23 ni fydd unrhyw un, oni bai iddo gael ei gyfarwyddo gan neu gyda chaniatâd heddwas yn ei wisg, yn achosi i neu'n caniatáu i unrhyw gerbyd neu gerbyd o ddosbarth penodol Aros ar unrhyw Ffordd Gyfyngedig yn ystod yr Oriau Cyfyngedig fel y nodir yn y Cynlluniau.

Ardaloedd Llwytho

11. Ar wahân i ddarpariaethau Erthyglau 15, 16 a 21 ni fydd unrhyw un, oni bai iddo gael ei gyfarwyddo gan neu gyda chaniatâd heddwas yn ei wisg, achosi i neu'n caniatáu i unrhyw gerbyd Aros yn ystod yr Oriau Cyfyngedig mewn unrhyw Ardal Llwytho a bennir yn y Cynlluniau oni bai fod y cerbyd o'r dosbarth penodol, ac ar wahân i lwytho neu ddadlwytho Nwyddau mewn perthynas ag eiddo masnachu neu fusnes gerllaw.
12. Os bydd y Cynlluniau'n cynnwys cyfeiriad penodol at uchafswm cyfnod yn ystod yr Oriau Cyfyngedig, pan ganiateir Llwytho neu Ddadlwytho, ni fydd unrhyw un, oni bai iddo gael ei gyfarwyddo neu gyda chaniatâd heddwas yn ei wisg, yn achosi neu'n caniatáu i unrhyw gerbyd Aros ar unrhyw Ardal Llwytho,
- (a) Am hirach nag sydd ei angen i lwytho Nwyddau ar neu eu dadlwytho o'r cerbyd
 - (b) Am gyfnod hirach na'r hyn a bennir yn y Cynlluniau; neu

- (c) Os bydd cyfnod llai na'r hyn a bennir yn y Cynlluniau, sef cyfnod lle ni chaniateir i'r Cerbyd ddychwelyd ers cyfnod Aros blaenorol gan yr un cerbyd ar yr un ochr neu ddarn o ffordd.

Cyfngiadau llwytho a dadlwytho

13. Ar wahân i ddarpariaethau Erthyglau 15, 16 a 21 ni chaniateir i unrhyw un, oni bai iddo gael ei gyfarwyddo neu gyda chaniatâd heddwas yn ei wisg, achosi neu ganiatáu i unrhyw gerbyd neu gerbyd dosbarth penodol at ddiben galluogi llwytho neu ddadlwytho Nwyddau o'r Cerbyd ar unrhyw Ffordd Dim Llwytho yn ystod yr Oriau Dim Llwytho, fel y pennir yn y Cynlluniau.

Cyfngiadau aros

14. Ar wahân i ddarpariaethau Erthyglau 15, 16 a 21 ni chaniateir i unrhyw un, oni bai iddo gael ei gyfarwyddo gan neu gyda chaniatâd heddwas yn ei wisg, achosi neu ganiatáu i unrhyw gerbyd aros ar Ffordd Dim Aros neu Glirffordd yn ystod yr Oriau Dim Aros a bennir yn y Cynlluniau.

Gwaharddiadau a chyfngiadau digwyddiadau'n unig

15. Ar wahân i ddarpariaethau Erthyglau 17, 21 a 23 ni chaniateir i unrhyw un, oni bai iddo gael ei gyfarwyddo gan neu gyda chaniatâd heddwas yn ei wisg, achosi neu ganiatáu i unrhyw gerbyd Parcio mewn unrhyw Ffordd â Gwaharddiad neu Gyfngiadau adeg Digwyddiadau, fel y pennir yn y Cynlluniau sy'n cael eu harddangos ar yr arwyddion Ffordd â Gwaharddiad neu Gyfngiadau fel y pennir gan Reoliadau a Chyfarwyddiadau Cyffredinol Arwyddion Traffig 2016 neu arwyddion a awdurdodwyd gan yr Adran Trafnidiaeth sy'n dangos bod gwaharddiadau neu gyfngiadau Parcio mewn grym.

16. Adeg Digwyddiadau, caiff darpariaethau gwaharddiadau a chyfyngiadau Parcio arferol fel y nodir yn y Cynlluniau ar ffyrdd sy'n cael eu heffeithio gan gyfyngiadau Adeg Digwyddiadau, eu hatal dros dro.

Argyfngau

17. Ni fydd unrhyw beth yn Erthyglau 9 - 14 yn golygu ei fod yn anghyfreithlon achosi neu ganiatáu i unrhyw gerbyd Barcio neu Aros ar unrhyw ffordd, darn o ffordd neu ar ochrau'r ffordd a bennir ynddynt, mor bell a bod angen galluogi defnyddio cerbyd yn achos argyfwng megis tân ac achub, ambiwlans neu at ddibenion yr heddlu:

Eithriadau cyffredinol

18. Ni fydd unrhyw beth yn erthyglau 9 - 14 yn golygu ei fod yn anghyfreithlon achosi neu ganiatáu i unrhyw gerbyd Aros neu Barcio ar unrhyw ffordd, darn o ffordd neu ar ochrau'r ffordd a bennir ynddynt mor bell ag y bydd angen galluogi:
- (a) defnyddio'r cerbyd, os nad yw'n bosib ei ddefnyddio'n hwylus at unrhyw ddiben arall mewn unrhyw ffordd arall, mewn perthynas ag unrhyw un o'r canlynol, sef:-

- (i) Adeiladu, ffitio siop, gweithredoedd diwydiannol neu ddymchwel; neu
- (ii) Tynnu unrhyw rwystr i draffig; neu
- (iii) Cynnal a chadw, gwella, neu ail-adeiladu'r darnau neu ochrau ffordd dan sylw; neu
- (iv) Gosod, codi, newid neu atgyweirio unrhyw dir gerllaw'r darnau neu ochrau ffordd unrhyw garthffos neu unrhyw brif gyflenwad, peipen neu offer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan, neu unrhyw system telegyfathrebu gan ymgymerwr statudol; neu
- (v) Cerbydau sy'n hanfodol i weithgareddau ffilmio; neu
- (vi) Amgylchiadau eraill sydd ym marn resymol y Cyngor yn golygu fod y gwaith yn hanfodol
- (vii) Symud dodrefn

- (b) y cerbyd, os nad Cerbyd Teithwyr yw, os nad yw'n bosib ei ddefnyddio'n hwylus at unrhyw ddibenion felly mewn unrhyw ffordd arall, i'w ddefnyddio yng ngwasanaeth awdurdod lleol neu ei gcontractwyr wrth weithredu pwerau neu ddyletswyddau statudol yr awdurdod;
- (c) Cerbyd sy'n eiddo i'r Post Brenhinol neu ddarparwr gwasanaeth cyffredin (fel y diffinnir yn Adran 4(3) a (4) Deddf Gwasanaethau Post 2000) i'w ddefnyddio i gludo a/neu gasglu'r post; neu
- (d) mewn unrhyw achos lle mae'r unigolyn sydd â rheolaeth o'r cerbyd,
- (i) Mae gofyn iddo aros yn ôl y gyfraith;
- (ii) Mae arno ddyletswydd i aros er mwyn atal damwain; neu
- (iii) Mae'n cael ei atal rhag symud ymlaen oherwydd amgylchiadau eraill tu allan i'w reolaeth/rheolaeth.

Llwytho a dadlwytho

19. Ni fydd unrhyw beth yn Erthyglau 9 - 12 yn golygu ei fod yn anghyfreithlon achosi neu ganiatáu i unrhyw gerbyd Aros mewn unrhyw ffordd, darnau ffordd neu ochrau ffordd neu Ardaloedd Llwytho a bennir ynddynt mor bell a bo angen i alluogi llwytho i neu ddadlwytho Nwyddau o gerbyd (neu gludo neu gasglu Nwyddau neu farsiandiaeth).

Mynd ar a gadael cerbyd

20. Ni fydd unrhyw beth yn Erthyglau 9 - 10 yn golygu ei fod yn anghyfreithlon achosi neu ganiatáu i unrhyw gerbyd Parcio neu Aros mewn unrhyw ffordd, darnau ffordd neu ochrau ffordd a bennir ynddynt mor bell a bo angen i alluogi unigolyn i fynd ar neu adael y cerbyd.

Angladdau a phriodasau

21. Ni fydd unrhyw beth yn erthyglau 9 - 10 yn golygu ei fod yn anghyfreithlon achosi neu ganiatáu i unrhyw gerbyd Aros neu Barcio, os nad yw'n gallu

gwneud hynny mewn ffordd ddiogel a chyfleus mewn man arall, ar unrhyw ffordd, darnau ffordd neu ochrau'r ffordd a bennir ynddynt, os bydd cerbyd swyddogol yn cael ei ddefnyddio ar gyfer angladd neu briodas.

Mannau Parcio

22. Ni fydd unrhyw beth yn Erthyglau 9 - 14 yn golygu ei fod yn anghyfreithlon achosi neu ganiatáu i unrhyw gerbyd Parcio mewn Man Parcio dynodedig.

Aros neu Barcio wrth gerbyd Person Anabl

23. Ni fydd unrhyw beth yn Erthyglau 9 - 10 yn golygu ei fod yn anghyfreithlon achosi neu ganiatáu i gerbyd sy'n dangos mewn Safle Perthnasol Fathodyn Person Anabl a Disc Parcio, y mae'r Gyrrwr neu unigolyn arall sydd yng ngofal y cerbyd wedi nodi amser cychwyn y cyfnod Aros neu Barcio, i Aros neu Barcio mewn Ffordd Waharddedig neu Ffordd Gyfyngedig am gyfnod heb fod yn hirach na 3 awr (heb i'r cyfnod dan sylw gael ei wahanu gan gyfnod llai na'r hyn a nodir yn y Cynlluniau o gyfnod Aros neu Barcio blaenorol gan yr un cerbyd yn yr un darn o ffordd neu ar un ochr y ffordd ar yr un diwrnod) **MOR BELL A BOD** y cerbyd, yn uniongyrchol cyn neu ar ôl y weithred o Aros neu Barcio wedi cael ei yrru neu ar fin cael ei yrru neu ei ddefnyddio gan yr unigolyn y cyhoeddwyd y bathodyn iddo/iddi, neu fel mae'n digwydd, yn cael ei ddefnyddio i gludo unigolyn (unigolion) anabl fel teithiwr (teithwyr).

Safleoedd Tacsis

24. Ni fydd unrhyw beth yn Erthyglau 9 a 10 a 14 yn atal unrhyw un rhag achosi neu ganiatáu Cerbyd Hacni trwyddedig i Barcio neu Aros mewn unrhyw safle Tacsis trwyddedig yn ystod y cyfnod gweithredu a bennir yn y Cynlluniau.
25. Ni fydd unrhyw un yn achosi neu'n caniatáu i unrhyw gerbyd ar wahân i Gerbyd Hacni Barcio neu Aros ar Safle Tacsis yn ystod y cyfnod gweithredu.

26. Ni fydd unrhyw un yn achosi neu'n caniatáu i Gerbyd Hacni Barcio neu Aros ar Safle Tacsi yn ystod y cyfnod gweithredu ar wahân i'r diben o yrru tacsi i'w hurio.

Amodau Aros Cyffredinol

27. Ni fydd unrhyw un yn cael achosi neu ganiatáu i unrhyw gerbyd Barcio neu Aros nes bo'r holl olwynion ar y gerbytffordd, ac os bydd amodau'n gofyn y dylai'r cerbyd Parcio neu Aros ochr yn ochr â'r cwrn, er mwyn sicrhau nad yw'r pellter rhwng min y gerbytffordd ac olwyn agosaf y cerbyd yn fwy na 50cm.
28. Ni fydd unrhyw un yn cael achosi neu ganiatáu i unrhyw gerbyd Barcio neu Aros fel bo unrhyw ran o'r cerbyd yn rhwystro unrhyw gwrn isel neu unrhyw fynedfa arall i gerbydau fynd mewn i neu adael eiddo gerllaw ochr y ffordd lle mae'r cerbyd yn Aros.

ADRAN 3 – MANNAU PARCIO A GANIATEGR

Mannau Parcio – Cyfnod Aros Cyfyngedig

Dynodi Mannau Parcio – Cyfnod Aros Cyfyngedig

29. Trwy hyn, dynodir y rhannau ffordd a nodir yn y Cynlluniau, i'w defnyddio'n amodol ar ddarpariaethau canlynol y Gorchymyn hwn fel Mannau Aros neu Barcio cyfyngedig, a gellir eu defnyddio'n amodol ar ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn ar y dyddiau ac yn ystod yr oriau a nodir yn y Cynlluniau.
30. Ni fydd unrhyw un yn achosi neu'n caniatáu i unrhyw gerbyd Barcio mewn Man Aros neu Barcio cyfyngedig yn ystod yr Oriau a Ganiateir oni bai bod y cerbyd o'r dosbarth penodol dan sylw.

Dosbarthiadau cerbydau y dynodwyd Mannau Aros neu Barcio cyfyngedig ar eu gyfer

31. Yn amodol ar ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn, gellir defnyddio Mannau Aros neu Barcio cyfyngedig yn ystod yr Oriau a Ganiateir i Barcio Cerbydau Teithwyr, Cerbydau Nwyddau Ysgafn, Beicio Modur a cherbydau sy'n arddangos Bathodyn Person Anabl, Trwydded Parcio neu Dystysgrif Drwyddedig.

Cyfyngiadau Parcio

32. Ar wahân i argywng, ni chaniateir i unrhyw un achosi neu ganiatáu i unrhyw gerbyd aros mewn Man Aros neu Barcio cyfyngedig am gyfnod hirach na'r uchafswm amser a bennir ar gyfer y Man Parcio dan sylw yn y Cynlluniau.

Ni chaniateir dychwelyd

33. Lle nodir cyfnod lle ni chaniateir Parcio cerbyd eto yn y Man Aros neu Barcio Cyfyngedig yn y Cynlluniau, ni chaniateir i unrhyw un ganiatáu neu achosi i'r cerbyd Barcio neu Aros eto yn y Man Parcio hwnnw nes daw'r cyfnod a bennir i ben.

Parcio ar Leiniau a Throedffyrdd

34. Lle bennir Parcio rhannol ar lain neu droedffordd yn y Cynlluniau, ni fydd unrhyw beth yn golygu ei fod yn anghyfreithlon i unigolyn achosi neu ganiatáu i gerbyd o'r dosbarth a bennir Barcio mewn Man Aros neu Barcio Cyfyngedig ar y llain neu'r droedffordd.

Mannau Parcio i Ddeiliaid Trwyddedau

Dynodi Mannau Parcio i Ddeiliaid Trwyddedau

35. Mae rhannau'r ffyrdd a nodir fel y cyfryw yn y Cynlluniau, trwy hyn yn cael eu dynodi i gael eu defnyddio'n unol â darpariaethau canlynol y Gorchymyn hwn fel Mannau Parcio i Ddeiliaid Trwyddedau a gellir eu defnyddio'n amodol ar ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn ar ddyddiau ac yn ystod yr oriau a nodir yn y Cynlluniau.
36. Ni chaniateir i unrhyw un achosi neu ganiatáu i unrhyw gerbyd Barcio mewn Man Parcio i Ddeiliaid Trwydded yn ystod yr Oriau a Ganiateir oni bai fod y cerbyd o'r dosbarth a bennir, a bod y cerbyd dan sylw'n arddangos yn y Safle Perthnasol Drwydded Barcio ddilys ar gyfer yr amser dan sylw ac ar gyfer y Man Parcio dan sylw.

Dosbarthiadau cerbydau ar gyfer Mannau Parcio i Ddeiliaid Trwyddedau dynodedig

37. Yn amodol ar ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn, gellir defnyddio Mannau Parcio yn ystod yr Oriau a Ganiateir i Gerbydau Teithwyr, Cerbydau Nwyddau Ysgafn, Beiciau Modur a cherbydau sy'n arddangos Bathodyn Person Anabl, Trwydded Parcio neu Dystysgrif Drwyddedig Barcio neu Aros.

Uchafswm Cyfnod Parcio

38. Yn amodol ar ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn, ni chaiff unrhyw un achosi neu ganiatáu i unrhyw gerbyd Barcio neu Aros mewn Man Parcio i Ddeiliaid

Trwyddedau am gyfnod hirach na'r uchafswm a bennir ar gyfer y Man Parcio dan sylw trwy hysbysiad yn neu ger y Man Parcio.

Ni chaniateir dychwelyd

39. Yn arnodol ar ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn, lle bennir cyfnod lle ni chaniateir i gerbyd Barcio neu Aros eto ym Man Parcio Deiliad y Drwydded, trwy hysbysiad yn neu ger y Man Parcio, ni chaiff unrhyw un ganiatáu neu achosi i'r cerbyd Barcio neu Aros yn y Man Parcio dan sylw nes daw'r cyfnod a bennir i ben.

Peidio arddangos Trwydded Parcio, Tystysgrif Drwyddedig neu Fathodyn Person Anabl

40. Os ar unrhyw adeg pan fydd cerbyd wedi ei Barcio neu'n Aros mewn Man Parcio, heb arddangos Trwydded Parcio ar y cerbyd yn y Safle Perthnasol, tybir nad oes ganddo Drwydded Parcio, Tystysgrif Drwyddedig neu Fathodyn Person Anabl ac efallai y cyhoeddir Hysbysiad Tâl Cosb.

Arddangos Trwydded Parcio, Tystysgrif Drwyddedig a Bathodyn Person Anabl

41. Bydd Gyrwr unrhyw gerbyd sy'n arddangos yn y Safle Perthnasol Drwydded Parcio neu Dystysgrif Drwyddedig sy'n ddilys ar gyfer Man Parcio Deiliad y Drwydded dan sylw, ynghyd ag unrhyw Yrrwr sy'n arddangos yn y Safle Perthnasol Fathodyn Person Anabl dilys (yn unol â'r amodau sy'n berthnasol i'r ddogfen honno), yn cael ei eithrio rhag cyhoeddi Hysbysiad Tâl Cosb yn amodol ar gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.

Dynodi Mannau Parcio Penodol

42. Trwy hyn mae rhannau'r ffordd a nodir felly ar y Cynlluniau, i'w defnyddio'n amodol ar ddarpariaethau canlynol y Gorchymyn hwn fel Deiliaid Stondinâu

Marchnad yn Unig ac ar gael i'w defnyddio'n unig gan y Gyrrwr sy'n cyfateb i'r disgrifiad perthnasol drwy hysbysiad yn neu ger y Man Parcio, a gellir eu defnyddio'n amodol ar ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn ar y dyddiau ac yn ystod yr oriau a bennir ar y Cynlluniau.

43. Ni fydd unrhyw un yn achosi neu'n caniatáu i unrhyw gerbyd Barcio neu Aros mewn Man Parcio Penodol yn ystod yr Oriau a Ganiateir oni fydd yn arddangos yn y Safle Perthnasol Drwydded Parcio ddilys, Tystysgrif Drwyddedig neu Fathodyn Person Anabl Dilys ar gyfer y cerbyd dan sylw, yr amser hwnnw ac sy'n berthnasol i'r Man Parcio hwnnw.
44. Bydd y Cyngor yn cyhoeddi Trwydded Parcio ar gyfer Mannau Parcio Penodol mewn ffurf ac yn amodol ar amodau i'w cytuno o dro i dro gan y Cyngor.

Arddangos Trwydded Parcio, Tystysgrif Drwyddedig, neu Fathodyn Person Anabl ar gyfer Mannau Parcio Periodol

45. Ni fydd unrhyw un yn achosi neu'n caniatáu i unrhyw gerbyd Barcio neu Aros mewn Man Parcio Penodol yn ystod yr Oriau a Ganiateir oni fydd y cerbyd dan sylw'n arddangos yn y Safle Perthnasol Fathodyn Person Anabl dilys, Tystysgrif Drwyddedig neu Drwydded Parcio **MOR BELL A BOD** y cerbyd, yn uniongyrchol cyn neu ar ôl y weithred o Barcio, wedi bod neu ar fin cael ei yrru neu ei ddefnyddio gan yr unigolyn y cyhoeddwyd y Drwydded Parcio, neu yn achos cerbyd gyda Bathodyn Person Anabl iddo, neu fel bo'n berthnasol, yn cael ei ddefnyddio i gludo person(au) anabl fel teithiwr (teithwyr).

Uchafswm cyfnod Parcio mewn Man Parcio Penodol

46. Ar wahân i argyfwng, ni chaniateir i unrhyw un achosi neu ganiatáu i unrhyw gerbyd aros mewn Man Parcio Penodol am fwy na'r uchafswm cyfnod a bennir ar gyfer y Man Parcio hwnnw ar y Cynlluniau.
47. Lle, fel y nodir ar y Cynlluniau, pennir uchafswm cyfnod ar gyfer y Man Parcio Penodol dan sylw, bydd Gyrrwr cerbyd, wrth adael y cerbyd yn y Man Parcio, yn arddangos yn y Safle Perthnasol Dystysgrif Drwyddedig, Trwydded Parcio sy'n gysylltiedig â'r Man Parcio Penodol, neu Fathodyn Person Anabl a Disc

Parcio, lle nodir amser cychwyn y cyfnod Parcio, a bydd yn symud y cerbyd o'r Man Parcio dan sylw yn unol â'r uchafswm amser a bennir.

48. Lle pennir ar y Cynlluniau gyfnod lle ni chaniateir i gerbyd Barcio neu Aros eto yn y Man Parcio Penodol dan sylw, ni fydd unrhyw un yn caniatáu neu'n achosi i'r cerbyd Barcio eto yn y Man Parcio Penodol hwnnw nes daw'r cyfnod a bennir i ben.

Dosbarthiadau cerbydau y mae trwyddedau'n berthnasol iddynt

49. Yn amodol ar ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn, gellir cyhoeddi Trwyddedau Parcio mewn perthynas â, er nad ydynt yn gyfyngedig i, ddosbarthiadau cerbydau sef Cerbydau Teithwyr, Cerbydau Nwyddau Ysgafn, Beiciau Modur a Cherbydau Unigolion Anabl.
50. Lle caiff Trwydded Parcio ei arddangos ar gerbyd yn unol â'r Erthygl flaenorol, ni chaniateir i unrhyw un arall ar wahân i Yrrwr y cerbyd dynnu'r Drwydded Parcio o'r cerbyd oni chaiff ei awdurdodi i wneud hynny gan Yrrwr y cerbyd.

Amodau cyffredinol mewn perthynas â Mannau Parcio

Dull sefyll mewn Man Parcio

51. Oni ddangosir fel arall trwy nodau ar y gerbytffordd, dylai pob cerbyd sy'n cael ei Barcio neu sy'n Aros mewn Man Parcio y mae amodau Aros cyfyngedig, i Bobl Anabl neu i Drigolion yn unig, yn unol â'r darpariaethau uchod yn y Gorchymyn hwn, sefyll:
- (a) Os taw mewn Stryd Unffordd y mae'r Man Parcio, fel bo'r cerbyd yn wynebu cyfeiriad llif y traffig, a gerllaw min y Gerbytffordd;
 - (b) Os nad yw'r Man Parcio mewn Stryd Unffordd, fel bo ochr chwith neu ochr agosaf y cerbyd gerllaw min chwith y Gerbytffordd;
 - (c) Fel bo'r pellter rhwng min y gerbytffordd ac olwyn agosaf y cerbyd yn 50cm ar y mwyaf;

- (d) Fel nad yw unrhyw ran o'r cerbyd yn rhwystro unrhyw gyfrwng i gerbydau eraill fynd mewn i neu adael eiddo wrth ochr y ffordd lle Parciwyd y cerbyd; a
- (e) Fel bo bob rhan o'r cerbyd o fewn cyfyngiadau'r Man Parcio a nodwyd ar y Gerbytffordd.

Newid safle cerbyd mewn Man Parcio

52. Os bydd unrhyw gerbyd yn sefyll mewn Man Parcio'n groes i ddarpariaethau'r Erthygl flaenorol, gall Swyddog Gorfodi Sifil neu Heddwash yn ei wisg newid neu achosi i safle'r cerbyd newid er mwyn i'r safle gydymffurfio â'r darpariaethau hyn.

Symud cerbyd mewn Man Parcio mewn argyfwng

53. Gall heddwash yn ei wisg symud neu achosi i gerbyd symud, neu dynnu neu achosi i gerbyd gael ei dynnu, yn achos argyfwng, i unrhyw le sydd yn addas yn ei farn ef/hi, unrhyw gerbyd a Barciwyd neu sy'n Aros mewn Man Parcio, a bydd yn trefnu cadw'r cerbyd yn ddiogel.

Atal dros dro defnydd o Fan Parcio

54. Gall unrhyw un, gyda chaniatâd y Cyngor, atal dros dro defnydd o Fan Parcio neu unrhyw ran ohono os ystyri'r fod atal defnydd dros dro ohono'n rhesymol angenrheidiol:
- (a) At ddiben hwyluso symud traffig neu hyrwyddo diogelwch; neu
 - (b) At ddiben gweithgareddau adeiladu, dymchwel neu gloddi gerllaw'r Man Parcio, gwaith cynnal a chadw neu wella neu ail-adeiladu'r briffordd neu i lanhau cwteri yn neu gerllaw'r Man Parcio, i osod, codi, newid neu atgyweirio yn neu gerllaw'r Man Parcio neu unrhyw garthffos neu unrhyw brif gyflenwad, peipen neu offer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan, neu unrhyw system telegyfathrebu neu i osod, cynnal a chadw neu dynnu unrhyw arwydd traffig; neu

- (c) Er hwylustod meddianwyr eiddo gerllaw'r Man Parcio wrth symud dodrefn i neu o swyddfa neu anheddle gerllaw'r Man Parcio o neu i storfa, swyddfa arall neu anheddle; neu
 - (d) Unrhyw achlysur pan mae'n debygol, oherwydd rhyw atyniad arbennig, y bydd y stryd yn orlawn neu y bydd rhwystr(au) ar y stryd; neu
 - (e) Er hwylustod meddianwyr eiddo gerllaw'r Man Parcio adeg priodasau neu angladdau, neu ar gyfer achlysuron arbennig eraill; neu
 - (f) Ar unrhyw achlysur pan, er budd symudiadau a diogelwch traffig neu gerddwyr, pan fydd digwyddiad arbennig yn digwydd yn yr ardal gyfagos.
55. Gall heddwlas yn ei wisg atal dros dro am uchafswm o 7 diwrnod, defnydd o Fan Parcio neu unrhyw ran ohono os bydd yn ystyried fod hyn yn rhesymol angenrheidiol at ddiben hwyluso symudiadau traffig neu i hyrwyddo ei ddiogelwch.
56. Bydd unrhyw un neu unrhyw heddwlas sy'n atal dros dro defnydd o Fan Parcio neu unrhyw ran ohono'n unol â darpariaethau'r Gorchymyn hwn, yn gosod neu'n trefnu gosod yn neu gerllaw'r Man Parcio dan sylw neu'r rhan o'r Man Parcio dan sylw, arwydd traffig sy'n dangos y gwaherddir Parcio cerbydau yno.

Dim Parcio mewn Man Parcio wedi'i atal dros dro

57. Ni fydd unrhyw un yn achosi neu'n caniatáu i gerbyd Barcio mewn Man Parcio neu unrhyw ran ohono yn ystod cyfnod pan fydd y Cyngor neu Heddwlas wedi atal Parcio yn y Man Parcio neu unrhyw ran ohono dan sylw dros dro, ac sy'n arddangos hysbysiad atal parcio yn neu ger y Man Parcio hwnnw dros dro.
58. Nid yw unrhyw beth yn yr Erthygl flaenorol yn golygu ei fod yn anghyfreithlon achosi neu caniatáu i gerbyd Barcio neu Aros mewn Man Parcio sydd wedi cael ei atal dros dro, sy'n arddangos yn y Safle Perthnasol Dystysgrif Drwyddedig

ddilys a gyhoeddir gan y Cyngor, ac mae'r Cerbyd yn parcio'n unol â thelerau ac amodau'r Dystysgrif Drwyddedig dan sylw.

Cyfngiadau o ran defnyddio cerbydau mewn Man Parcio

59. Yn ystod yr Oriau a Ganiateir ni chaiff unrhyw un ddefnyddio unrhyw Fan Parcio neu unrhyw gerbyd tra bydd mewn Man Parcio:

- a. I arfer ei grefft,
- b. Mewn perthynas â gwerthu neu gynnig neu arddangos i'w gwerthu unrhyw Nwyddau i unrhyw un yn neu ger y Man Parcio, neu
- c. Mewn perthynas â gwerthu neu gynnig gwerthu ei grefft neu ei wasanaethau mewn unrhyw gapasiti arall:

MOR BELL A BOD

- (i) Dim byd yn yr Erthygl hon yn atal gwerthu Nwyddau o gerbyd os bydd y cerbyd yn arddangos dystysgrif o Ganiatâd Masnachu ar y Stryd a gyhoeddir gan y Cyngor, ac mae'r cerbyd yn cael ei ddefnyddio'n unol ag unrhyw amodau ar y dystysgrif dan sylw, a
- (ii) Ni fydd unrhyw beth yn yr Erthygl hon yn atal gwerthu Nwyddau o gerbyd os taw Cerbyd Teithwyr, Cerbyd Nwyddau Ysgafn, Beic Modur neu gerbyd i'r Anabl yw'r cerbyd dan sylw ac mae'r Nwyddau'n cael eu cludo ar unwaith i neu'n cael eu cymryd i eiddo gerllaw'r cerbyd lle mae'r gwerthu'n digwydd, ac nid yw'r cerbyd yn Parcio am gyfnod dros 20 munud neu gyfnod hirach y gall Swyddog Gorfodi Sifil neu unigolyn arall a awdurdodir gan y Cyngor, ei gymeradwyo.

Eithriadau i gyfngiadau Parcio gan gerbyd mewn Man Parcio

60. Er gwaethaf y darpariaethau blaenorol yn y Gorchymyn hwn gall unrhyw gerbyd Barcio neu Aros yn ystod yr Oriau a Ganiateir mewn unrhyw ran o Fan Parcio os nad yw defnydd o'r darn hwnnw wedi cael ei atal dros dro ac os:
- (a) Mae'r cerbyd yn Parcio neu'n Aros ar gyfer cyfnod angenrheidiol at ddiben galluogi unrhyw unigolyn i fynd mewn neuadael cerbyd neu i lwytho i'r cerbyd neu ddadlwytho o'r cerbyd eu heiddo personol;
 - (b) Mae'r cerbyd wedi Parcio neu'n Aros oherwydd mae'r Gyrrwr yn cael ei atal rhag symud oherwydd amgylchiadau tu hwnt i'w reolaeth neu oherwydd bod angen Parcio neu Aros er mwyn osgoi damwain;
 - (c) Mae'r cerbyd yn cael ei ddefnyddio gan feddyg, nrys neu ymarferwr meddygol arall sy'n ymweld ag eiddo gerllaw'r Man Parcio wrth gyflawni dyletswyddau proffesiynol;
 - (d) Mae'r cerbyd yn cael ei ddefnyddio at ddibenion tân ac achub, ambiwlans neu'r heddlu, neu os nad Cerbyd i Deithwyr yw, mae'n cael ei ddefnyddio er gwasanaethu'r awdurdod lleol wrth arfer ei bwerau neu ddyletswyddau statudol mor bell â'i fod yn rhesymol angenrheidiol wrth arfer y pwerau hynny, neu i berfformio'r dyletswyddau i'r cerbyd Barcio neu Aros yn y man lle cafodd ei Barcio;
 - (e) Mae'r cerbyd wedi cael ei Barcio neu'n Aros am y cyfnod angenrheidiol i alluogi ei ddefnyddio i gael gwared ar unrhyw rwystr i draffig;
 - (f) Os taw un o gerbydau'r Post Brenhinol neu ddarparwr gwasanaeth post cyffredin arall yw (fel y diffinnir yn Adran 4(3) a (4) Deddf Gwasanaethau Post 2000) a Barciwyd neu sy'n Aros at ddiben cyflenwi a/neu gasglu'r post; neu
 - (g) Mewn unrhyw achos arall, mae'r cerbyd wedi ei Barcio neu'n Aros er mwyn cyflenwi neu gasglu Nwyddau neu i lwytho neu ddadlwytho'r cerbyd mewn eiddo gerllaw'r Man Parcio lle Parciwyd y cerbyd neu lle mae'n Aros ac nid yw'r cerbyd yn Parcio neu'n Aros am gyfnod dros 20

munud neu am gyfnod hirach y gall Swyddog Gorfodi Sifil neu unigolyn arall a awdurdodir gan y Cyngor, ei gymeradwyo.

Eithriadau ar gyfer cerbydau sy'n arddangos Bathodyn Person Anabl diliys

61. Er gwaethaf darpariaethau blaenorol y Gorchymyn hwn, gall unrhyw gerbyd sy'n arddangos yn y Safle Perthnasol Fathodyn Person Anabl diliys, Barcio neu Aros yn ystod yr Oriau a Ganiateir mewn unrhyw ran o Fan Parcio, os nad yw defnydd o'r rhan honno wedi cael ei hatal dros dro mor bell a bod y cerbyd yn cael ei Barcio neu'n Aros yn unol â thelerau ac amodau'r bathodyn dan sylw.

Eithriadau ar gyfer cerbydau sy'n arddangos Tystysgrif Drwyddedig

62. Er gwaethaf darpariaethau blaenorol y Gorchymyn hwn, gall unrhyw gerbyd sy'n arddangos yn y Safle Perthnasol Dystysgrif Drwyddedig ddilys a gyhoeddir gan y Cyngor Barcio neu Aros mewn unrhyw ran o Fan Parcio lle mae defnydd ohono wedi cael ei atal dros dro;

MOR BELL A BOD y cerbyd yn cael ei Barcio neu'n Aros yn unol â thelerau ac amodau'r Dystysgrif Drwyddedig.

Gosod arwyddion traffig ac ati.

63. Bydd y Cyngor yn:

- (a) Gosod a chynnal â chadw arwyddion traffig sy'n dangos cyfyngiadau pob Man Parcio,
- (b) Gosod a chynnal a chadw arwyddion traffig o ddyluniad a gymeradwyr gan Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Drafnidiaeth, sy'n dangos y gellir defnyddio'r Mannau Parcio hyn yn ystod yr Oriau a Ganiateir i adael yn unig gerbydau o'r dosbarthiadau a bennir, ac i

- (c) Gyflawni'r fath waith arall sy'n rhesymol angenrheidiol at ddibenion rhedeg
Man Parcio mewn ffordd fodhaol.

ADRAN 4 – AMODAU O RAN TYSTYSGRIFAU

Dosbarthiadau cerbydau y mae Tystysgrifau Trwyddedig yn berthnasol iddynt

64. Yn amodol ar ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn, gellir cyhoeddi Tystysgrifau Trwyddedig ar gyfer dosbarthiadau cerbydau sef Cerbydau Teithwyr, Cerbydau Nwyddau Ysgafn, Beicio Modur a cherbydau Unigolion Anabl.

Defnyddio Tystysgrifau Trwyddedig

65. Bydd Tystysgrif Drwyddedig yn ddilys yn unig i ddefnyddio Man Parcio ar ffordd, neu mewn ardal a nodir ar y Dystysgrif Drwyddedig ac a bennir ar y Cynlluniau.

Tystysgrif Drwyddedig

66. Gall y Cyngor gyhoeddi Tystysgrif Drwyddedig ar ôl derbyn cais, a gall gosod ffioedd, telerau ac amodaau fel sy'n briodol.
67. Gellir canslo Tystysgrif Drwyddedig ar unrhyw adeg, yn unol â disgrifiwn y Cyngor yn unig, ac ni fydd yn ddilys yn uniongyrchol wedi hynny. Dylid anfon hysbysiad ysgrifenedig at ddeiliad y dystysgrif yngylch canslo'r dystysgrif mewn unrhyw gyfeiriad sydd ym marn y Cyngor yn gyfeiriad yr unigolyn dan sylw, a dylid dychwelyd y dystysgrif yn ôl at y Cyngor ar unwaith.

ADRAN 5 - CYFFREDINOL

Amodau cyffredinol – Aros neu Barcio mewn sefyllfa oedd an rheoleiddedig

68. Ar unrhyw ffordd neu ddarnau ffordd o fewn Ardal Gorfodi Sifil heb reoleiddiadau penodol, ni fydd unrhyw un yn achosi neu'n caniatáu i unrhyw gerbyd Barcio neu Aros oni fydd yr holl olwynion ar y Gerbytffordd, ac os bydd amodau'n dangos y dylid Parcio'r cerbyd wrth ochr y cwrn, ac fel nad yw'r pellter rhwng min y gerbytffordd ac olwyn agosaf y cerbyd dros 50cms.
69. Ar unrhyw ffordd neu ddarnau ffordd o fewn Ardal Gorfodi Sifil heb reoleiddiadau penodol, ni fydd unrhyw un yn achosi neu'n caniatáu i unrhyw gerbyd Barcio neu Aros fel bo unrhyw ran o'r cerbyd yn rhwystro unrhyw gwrb isel neu ddull arall cerbyd o fynd i neu adael eiddo gerllaw ochr y ffordd lle mae'r cerbyd wedi ei Barcio neu'n Aros.

Croesfannau i Gerddwyr

70. Ni ddylid cymryd unrhyw beth yn narpariaethau'r Gorchymyn hwn fel awdurdod fyddai'n groes i unrhyw reoliadau a wnaethpwyd neu sy'n dod i rym fel pe bai wedi eu gwneud dan Adran 25 y Ddeddf.

ADRAN 6 – TRAMGWYDDO A THÂL COSB

Tramgwyddo

71. Os bydd Cerbyd yn Aros neu wedi ei Barcio mewn Ffordd a Waherddir neu Ffordd Gyfyngedig neu Fan Parcio yn eu tro heb gydymffurfio â gofynion y Gorchymyn hwn, ystyrir fod hyn yn dramgwydd, a bydd Tâl Cosb yn daladwy.

Dangosyddion Tystiolaeth

72. Dylid trin unrhyw fanylion mewn unrhyw hysbysiad a gyhoeddir ar gerbyd sy'n tramgwyddo unrhyw ddarpariaeth yn y Gorchymyn hwn, fel tystiolaeth mewn unrhyw achos sy'n gysylltiedig â methu talu'r Tâl Cosb dan sylw.

Cyfyngiadau o ran tynnu hysbysiadau

73. Os gosodwyd hysbysiad ar gerbyd yn unol â darpariaethau'r Gorchymyn hwn, ni chaniateir i unrhyw un, nad yw'n Yrrwr y Cerbyd, heddwas yn ei wisg, Swyddog Gorfodi Sifil neu unigolyn arall a awdurdodir gan y Cyngor, dynnu'r hysbysiad o'r cerbyd oni chaiff ei awdurdodi i wneud hynny gan gieidwad y cerbyd.

Atal symud

74. Os caiff cerbyd ei adael neu ei Barcio ar ôl derbyn Tâl Cosb, gall Swyddog Gorfodi Sifil neu unigolyn arall a awdurdodir gan y Cyngor osod teclyn atal symud ar y cerbyd ynghyd â hysbysiad yn unol â darpariaethau Deddf Rheoli Traffig 2004 neu unrhyw ddeddfwriaeth ddilynol sy'n galluogi hynny, a chaiff y cerbyd ei ryddhau o'r teclyn yn unig ar ôl talu'r Tâl Gosb ynghyd ag unrhyw ffi am ei ryddhau yn unol â gofynion y Cyngor.

Tynnu cerbyd

75. Os bydd Swyddog Gorfodi Sifil neu unigolyn arall a awdurdodir gan y Cyngor wedi tynnu neu wedi achosi tynnu cerbyd yn unol â darpariaethau'r Gorchymyn hwn,
- (a) Bydd yn sicrhau y caiff y cerbyd ei gadw'n ddiogel;
 - (b) Bydd gan y Cyngor yr hawl i hawlio gan y Gyrrwr unrhyw ffioedd mewn perthynas â thynnu, cadw a chael gwared ar y cerbyd, a ddyfernir o dro i dro;
 - (c) Bydd darpariaethau'r Ddeddf fel y'i diwygiwyd yn berthnasol i gael gwared ar y fath cerbydau sy'n cael eu symud gan neu ar ran y Cyngor.
76. Ni fydd unrhyw beth mewn perthynas ag atal cerbyd rhag symud neu dynnu cerbyd yn berthnasol mewn perthynas â cherbyd sy'n arddangos mewn Safle Perthnasol Fathodyn Person Anabl.
77. Bydd y cyfyngiadau a osodir gan y Gorchymyn hwn yn ychwanegol at ac ni fyddant yn disodli unrhyw gyfyngiadau neu ofynion a osodir gan unrhyw reoliadau a wneir neu sy'n dod i rym fel pe byddent yn cael eu gweithredu dan y Ddeddf neu gan neu o dan unrhyw Ddeddfiad arall.

ADRAN 7 - DIDDYMIADAU

78. Mae pob gorchymyn rheoleiddio traffig neu rannau o orchmyntion rheoleiddio traffig sy'n gosod y cyfyngiadau canlynol:



- (a) Gwahardd a chyfyngu ar Barcio a llwytho a dadlwytho;
- (b) Gwahardd Aros,
- (c) Ardaloedd Llwytho,
- (d) Cyfyngiadau ar Fannaù Parcio,
- (e) Cyfyngiadau ar Fannaù Parcio Penodol, a
- (f) Chyfyngiadau ar Fannaù Parcio Beiciau Modur

fel maent yn berthnasol i ffyrdd yn ardal y Trallwng fel y'i diffinnir yn y Gorchymynion neu Atodleni neu Gynlluniau a luniwyd cyn y Gorchymyn hwn drwy hyn yn cael ei diwyglo i ymgorffori'r diwygiadau a gyfeirir atynt yn y Gorchymyn hwn.


Gosodwyd sêl gyffredin)
CYNGOR SIR POWYS ar y)
gorchymyn hwn ym)
mhresenoldeb:



Robert Brown
Prif Gyfreithiwr



Dyddiedig y 12 diwrnod hwn o Ionawr 2022



(Various Streets Welshpool) (Prohibition and Restriction of Waiting and Loading and
Parking Places) (Amendment 2) Order 2022 AREA CODE DM123 ~~Area Code~~

Printed by: CHRISL

Date: 16/06/2021

